Dyddiad/Date 5 Ebrill 2021
Gofynnwch am/Ask for M Matthews
Rhif Ffôn/Telephone 01446 - 709727
Ffacs/Fax
e-bost/e-mail Admissions@valeofglamorgan.gov.uk
Eich Cyf/Your Ref
Fy Nghyf/My Ref MM/ADM

Cyngor Bro Morgannwg
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri,
CF63 4RU
Ffôn: (01446) 700111
www.bromorgannwg.gov.uk

The Vale of Glamorgan Council
Learning and Skills
Civic Offices, Holton Road, Barry, CF63 4RU
Phone: (01446) 700111
www.valeofglamorgan.gov.uk

At: **Rieni plant cynradd sy'n byw yn nalgylchoedd ysgolion Pencoedtre a St Cyres**
Rhieni plant cynradd sy'n byw yn nalgylchoedd Ysgol Dewi Sant ac Ysgol St Baruc
Rhieni plant sy'n mynychu ysgolion cynradd Ysgol Dewi Sant ac Ysgol St Baruc ar hyn o bryd

Ymgynghoreion Rhagnodedig

Annwyl Ymgynghorai,

TREFNIADAU DERBYN I YSGOLION 2022/2023 BRO MORGANNWG

Ysgrifennaf atoch gyda chanlyniad yr ymgynghoriad diweddar ar drefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/2023. Roedd y newid arfaethedig yn cynnwys newid dros dro i ddalgylch Ysgol St Cyres am gyfnod o dair blynedd yn dechrau yn 2022/23 a newid parhaol i ddalgylch Ysgol Dewi Sant. Nid oedd unrhyw newidiadau i'r polisi derbyn na'r meini prawf gordanysgrifio o ran derbyn i ysgolion.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori codwyd pryderon gan ysgolion uwchradd yn y Barri. O ganlyniad, gwnaed gwrthgynigion gan y tair ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg i weithio gyda'r Cyngor i reoli'r galw yn ardal y Barri. O ganlyniad i hyn, canlyniad yr ymgynghoriad hwn oedd diwygiad arfaethedig i'r cynnig cychwynnol fel a ganlyn;

- Terfynu'r cynnig i sefydlu dalgylch deuol ar gyfer Ysgol St Cyres i gynnwys dalgylch Ysgol Uwchradd Pencoedtre.
- Cynnwys maen prawf ychwanegol ym meini prawf gordanysgrifio'r ysgol uwchradd sy'n blaenoriaethu disgyblion a oedd ar y gofrestr mewn ysgol fwydo flaenorol cyn i'r trefniant bwydo gael ei dynnu'n ôl am gyfnod o dair blynedd yn dechrau yn 2022/23
- Bwrw ati gyda'r cynnig i newid dalgylch Ysgol Dewi Sant.

Ystyriodd y Cyngor yn ofalus yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ei gyfarfod Cabinet ar 22 Mawrth 2021 ynghyd â'r diwygiad i'r cynnig cychwynnol. Cymeradwyodd y Cabinet y gwelliannau fel y disgrifir uchod i derfynu'r cynnig i sefydlu dalgylch deuol ar gyfer Ysgol St Cyres, cynnwys maen prawf ychwanegol ym meini prawf gordanysgrifio'r ysgol uwchradd i adlewyrchu trefniadau ysgolion bwydo blaenorol a newid dalgylch Ysgol Dewi Sant.

Gellir gweld y polisi derbyn i ysgolion ar gyfer 2022/2023 ar-lein yn https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/Consultations/School-Admission-Arrangements-2022-23.aspx. Nid yw Ysgol Stanwell nac Ysgol Gatholig Sant Richard Gwyn yn cael eu heffeithio gan y newid arfaethedig gan mai nhw yw eu hawdurdod derbyn eu hunain ac maen nhw'n penderfynu ar eu trefniadau ar wahân.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg / Correspondence is welcomed in Welsh or English

Yn gywir

M Matthews

M Matthews (Mr)
Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg / Correspondence is welcomed in Welsh or English